# Amcan Lles 2:
# Mae Caerdydd yn Lle Gwych i Dyfu'n Hŷn

## Asesiad Caerdydd o Les Lleol

**Ds:** Cynhaliwyd yr asesiad hwn drwy ddefnyddio'r data mwyaf diweddar sydd ar gael. Mewn llawer o achosion ni fydd hyn yn cipio effaith lawn pandemig byd-eang Covid-19. Cafodd gwaith i gasglu rhai setiau data ei atal yn sgil y pandemig hefyd.

# Dangosyddion


1. Canran y bobl 65+ oed a nododd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn
2. Boddhad â bywyd ymhlith pobl hŷn
3. Y ganran o bobl 65+ oed sy'n dweud eu bod yn teimlo iddynt gael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu gofal a'u cymorth
4. Canran y bobl 65+ oed sy'n dweud iddynt gael yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd eu hangen arnynt
5. Canran y bobl 65+ oed sy'n nodi eu bod yn byw yn y cartref iawn ar eu cyfer
6. Canran y bobl 65+ oed sy'n nodi eu bod yn fodlon â'r gefnogaeth gan eu teulu, eu ffrindiau a'u cymdogion *(Cwestiwn procsi ar gyfer canran y bobl 65+ oed sy'n dweud eu bod yn unig)*
7. Amcanestyniadau Dementia
8. Canran yr oedolion hŷn, sef pobl 65+ oed, â phwysau iach
9. Toriadau clun ymhlith pobl hŷn
10. Pobl hŷn a gefnogir yn y gymuned, fesul 1,000 o'r boblogaeth 65+
11. Nifer y pecynnau gofal a chymorth a ddarperir
12. Gofal Cartref - Nifer y defnyddwyr gwasanaeth a'r oriau gofal a ddarperir
13. Nifer y bobl sydd angen gwasanaethau gofal preswyl a nyrsio

# 1. Canran y bobl 65+ oed a nododd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn


**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae ychydig dros hanner y bobl hŷn 65+ oed yng Nghaerdydd (56.1%) yn ystyried bod eu hiechyd yn dda (ffigurau 18/19).
- Mae data cyfresi amser (ar gael hyd at 14/15) yn dangos bod hyn yn tueddu i wella.
- Ar lefel ward, dangosai data yn y gorffennol mai'r bwlch anghydraddoldeb yn nisgwyliad oes iach dynion yn 65 oed oedd 10.5 mlynedd. 12.1 mlynedd oedd yr un ffigur i fenywod. Gall dynion yn Adamsdown ddisgwyl treulio chwarter o weddill eu hoes (24.8%) mewn iechyd da o gymharu â deuparth (65.4%) yn achos rhai sy'n byw yn Llys-faen. Y ffigurau ar gyfer menywod yw 23.5% a 56.9% yn yr un drefn. Nid oes data ar gael ar gyfer hyn y tu hwnt i 2013.

**Canran y Bobl Hŷn (65+ oed) mewn Iechyd Da, 2017/18 - 2018/19**





**Canran y Bobl Hŷn (65+ oed) mewn Iechyd Da, 2003/4-2004/5 i 2014-15**





*Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru*

## 2. Boddhad â bywyd ymhlith pobl hŷn

**Pwyntiau Allweddol:**
- Arolwg Iechyd Cyhoeddus Cymru 2018/19 (y data diweddaraf ar gael) - Mae boddhad pobl hŷn yng Nghaerdydd â bywyd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.
- Arolwg Holi Caerdydd 2020 - Nododd cyfran fwy o bobl hŷn 65+ oed fod eu boddhad â bywyd yn 7 allan o 10 neu'n uwch, o gymharu â'r bobl dan 65 oed.




*Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru*





*Ffynhonnell: Cyngor Caerdydd - Arolwg HOLI Caerdydd*

# 3. Y ganran o bobl 65+ oed sy’n dweud eu bod yn teimlo iddynt gael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu gofal a’u cymorth

**Pwyntiau Allweddol:**
- Roedd bron i bedair rhan o bump yn teimlo iddynt gael eu cynnwys yn weithredol mewn penderfyniadau a wnaed ynghylch eu gofal a'u cymorth.

Y ganran o bobl 65+ oed sy’n dweud eu bod yn teimlo iddynt gael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu gofal a’u cymorth - 2019-20




Ffynhonnell: Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Cyngor Caerdydd

| **Caerdydd** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rwyf wedi cael fy nghynnwys yn weithredol wrth benderfynu sut i ddarparu gofal a chymorth imi (Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cyngor Caerdydd)** | | | | | | |
| | 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Do | 251 | 76.8 | 362 | 78.4 | 228 | 78.9 |
| Weithiau | 58 | 17.7 | 73 | 15.8 | 42 | 14.5 |
| Naddo | 18 | 5.5 | 27 | 5.8 | 19 | 6.6 |
| Cyfanswm Terfynol | 327 | 100.0 | 462 | 100.0 | 289 | 100.0 |


*Ffynhonnell: Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Caerdydd*

# 4. Canran y bobl 65+ oed sy'n dweud iddynt gael yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd eu hangen arnynt

**Pwyntiau Allweddol:**

- Roedd bron i bedair o bob pump yn teimlo eu bod wedi derbyn yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd angen

Canran y bobl 65+ oed sy'n dweud iddynt gael yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd eu hangen arnynt




Ffynhonnell: Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Cyngor Caerdydd

| Caerdydd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rwyf wedi derbyn yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd angen (Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles)** | | | | | | |
| | 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Do | 320 | 82.5 | 441 | 80.2 | 276 | 77.7 |
| Weithiau | 55 | 14.2 | 89 | 16.2 | 61 | 17.2 |
| Naddo | 13 | 3.4 | 20 | 3.6 | 18 | 5.1 |
| Cyfanswm Terfynol | 388 | 100.0 | 550 | 100.0 | 355 | 100.0 |


*Ffynhonnell: Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Caerdydd*

# 5. Canran y bobl 65+ oed a nodd eu bod yn byw yn y cartref iawn ar eu cyfer

**Pwyntiau Allweddol:**

- Ar gyfartaledd, nododd 87.3% o ymatebwyr eu bod yn byw yn y cartref iawn ar eu cyfer rhwng 2017/18 a 2019/20 (y data diweddaraf sydd ar gael)

Canran y bobl 65+ oed sy'n nodi eu bod yn byw yn y cartref iawn ar eu cyfer - 2019-20




Ffynhonnell: Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Cyngor Caerdydd


| **Caerdydd** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rwy'n byw mewn cartref sy'n rhoi'r gefnogaeth orau i'm lles (Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cyngor Caerdydd)** | | | | | | |
| | 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Ydw | 364 | 89.2 | 493 | 86.2 | 307 | 86.7 |
| Weithiau | 35 | 8.6 | 56 | 9.8 | 35 | 9.9 |
| Nac ydw | 9 | 2.2 | 23 | 4.0 | 12 | 3.4 |
| Cyfanswm Terfynol | 408 | 100.0 | 572 | 100.0 | 354 | 100.0 |

*Ffynhonnell: Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Caerdydd*

# 6. Canran y bobl 65+ oed sy'n nodi eu bod yn fodlon â'r gefnogaeth gan eu teulu, eu ffrindiau a'u cymdogion

**Pwyntiau Allweddol:**
- Ar gyfartaledd, nododd 84.9% o'r ymatebwyr eu bod yn hapus gyda'r gefnogaeth gan deulu, ffrindiau a chymdogion rhwng 2017/18 a 2019/20. (y data diweddaraf sydd ar gael)

Canran y bobl 65+ oed sy'n nodi eu bod yn fodlon â'r gefnogaeth gan eu teulu, eu ffrindiau a'u cymdogion





Ffynhonnell: Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Cyngor Caerdydd

| **Caerdydd** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rwy'n fodlon â'r gefnogaeth gan fy nheulu, fy ffrindiau a'm cymdogion (Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cyngor Caerdydd)** | | | | | | |
| | 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 | |
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Ydw | 339 | 83.5 | 491 | 86.0 | 302 | 84.8 |
| Weithiau | 53 | 13.1 | 65 | 11.4 | 47 | 13.2 |
| Nac ydw | 14 | 3.4 | 15 | 2.6 | 7 | 2.0 |
| Cyfanswm Terfynol | 406 | 100.0 | 571 | 100.0 | 356 | 100.0 |

*Ffynhonnell: Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, Cyngor Caerdydd*

# 7. Amcanestyniadau Dementia

**Pwyntiau Allweddol:**
- Yn yr 20 mlynedd nesaf, disgwylir cynnydd o bron i ddwy ran o dair yn nifer y bobl 65+ oed â dementia.
- Rhagwelir y bydd nifer y bobl â dementia difrifol bron yn dyblu.





*Ffynhonnell: Daffodill*

# 8. Canran yr oedolion hŷn, sef pobl 65+ oed, â phwysau iach

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae 37.3% o oedolion hŷn (65+ oed) yng Nghaerdydd â phwysau iach (cyfartaledd dros 3 blynedd (2017/18 - 2019/20). Gellir cymharu hyn yn cymharu ag Ynys Môn sydd â'r ganran uchaf ymhlith ALlau Cymru, sef 46.2%.

Canran oedolion hŷn a phwysau iach, pobl 65+ oed,
Awdurdodau Lleol Cymru, 2017/18-2019/20





*Ffynhonnell: ICC/Llywodraeth Cymru*

# 9. Toriadau Clun ymhlith Pobl Hŷn


**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae Caerdydd yn hafal i gyfartaledd Cymru o ran nifer y bobl fesul 100,000 sy'n torri eu clun.
- Mae Caerdydd wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru ers blynyddoedd, ac yn y blynyddoedd diwethaf wedi symud yn uwch i fod yn hafal iddo (yn uwch na chyfartaledd Cymru o 3.7 fesul 100,000)
- Mae cyfraddau torri clun yn amrywio ledled y ddinas gyda rhai ardaloedd â chyfraddau llawer uwch na chyfartaledd Cymru a rhai â chyfraddau llawer is.
- **Sylwer**: Cafwyd y gostyngiad yn 2011/12 oherwydd problem yn gysylltiedig â chodio y flwyddyn honno.

**Torri Cluniau Ymhlith Pobl Hŷn (cyfradd wedi'i safoni yn ôl oedran fesul 100,000), Pobl 65+ Oed, 2018/19**




**Torri Cluniau Ymhlith Pobl Hŷn (cyfradd wedi'i safoni yn ôl oedran fesul 100,000), Pobl 65+ Oed, 2009/10 - 2018/19**






*Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru*

# 10. Pobl hŷn a gefnogir yn y gymuned, fesul 1,000 o'r boblogaeth 65+

**Pwyntiau Allweddol:**

- 2015 y data diweddaraf sydd ar gael ar raddfa Cymru gyfan. Nid oedd yn rhaid i ALlau gyflwyno data'r Dangosydd Strategol Cenedlaethol mwyach o 2016
- Caerdydd sydd â'r gyfradd isaf ond un o gefnogaeth yn y gymuned o blith holl Awdurdodau Lleol Cymru.
- Mae'r gyfradd draean yn is na chyfartaledd Cymru.
- Mae data wedi cael eu casglu'n lleol hyd 2019, ac yn dangos tuedd ar i lawr yng nghyfradd y bobl hŷn a gefnogir yn y gymuned





*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

# 11. Nifer y pecynnau gofal a chymorth a ddarperir

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae Pecynnau Gofal a Chymorth ar gael i unrhyw un sydd angen gofal neu sy'n gofalu am rywun arall.
- Mae nifer y Pecynnau Gofal a Chymorth a ddarperir gan y Gwasanaethau Oedolion yng Nghaerdydd wedi gostwng yn raddol ers 2017. Ym mis Medi 2021, roedd 4,425 o becynnau Gofal a Chymorth yn cael eu darparu.

Nifer y Pecynnau Gofal a Chymorth, 2017-2021




*Ffynhonnell: Cyngor Caerdydd*


# 12. Gofal Cartref - Nifer y defnyddwyr gwasanaeth a'r oriau gofal a ddarperir

**Pwyntiau Allweddol:**

- Gelwir gofal cartref hefyd yn ofal yn y cartref. Rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2019, gwelwyd tuedd ar i lawr ar y cyfan yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth Gofal Cartref. Rhwng mis Mawrth 2019 a mis Tachwedd 2019, cafwyd ychydig o gynnydd yn nifer y defnyddwyr (gan gyrraedd uchafbwynt ym mis Tachwedd 2019), cyn gostwng eto hyd fis Mai 2020. Ers mis Mai 2020, mae nifer y defnyddwyr wedi cynyddu ar y cyfan, o 2,349 i 2,485 ym mis Medi 2021, gan amlygu cynnydd sydyn yn y galw ers dechrau'r pandemig.

- Dros yr un cyfnod, mae nifer yr oriau o ofal a ddarperir wedi gostwng ar y cyfan, gyda'r gostyngiad hwnnw'n amlwg rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Chwefror 2021.

Gofal Cartref: Nifer y Defnyddwyr Gwasanaeth a'r Oriau Gofal a Ddarperir, 2017-2021





*Ffynhonnell: Cyngor Caerdydd*

# 13. Nifer y bobl sydd angen gwasanaethau gofal preswyl a nyrsio

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae cyfanswm y bobl sydd angen gofal preswyl a nyrsio wedi gostwng yn raddol ers 2017. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd yn 2021 yn nifer y defnyddwyr gwasanaeth newydd.

Nifer y Defnyddwyr Gwasanaeth Gofal Preswyl a Nyrsio, 2017-2021




*Ffynhonnell: Cyngor Caerdydd*